**Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C** **Cyfarfod Rhif 451**
**15 Gorffennaf 2021 - Cyfarfod Zoom**

Presennol:

| | | |
|---|---|---|
| Aelodau Anweithredol y Bwrdd: | Rhodri Williams | (Cadeirydd) |
| | Anita George | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Chris Jones | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Hugh Hesketh Evans | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Denise Lewis Poulton | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Guto Bebb | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Adele Gritten | (Aelod o'r Bwrdd) |
| Aelodau Gweithredol: | Owen Evans | (Prif Weithredwr) |
| | Elin Morris | (Prif Swyddog Gweithredol) |
| | Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Cynnwys) |
| Staff S4C oedd yn bresennol: | Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |
| | Sharon Winogorski | (Prif Swyddog Cyllid) |
| | Owen Derbyshire | (Cyfarwyddwr Digidol a Marchnata) |
| | Rhidian Dafydd | (Cyfarwyddwr Prosiectau) – eitem 7 |
| | Catrin Hughes Roberts | (Cyfarwyddwr Partneriaethau) eitem5,9 |
| | Catrin Whitmore | (Pennaeth Adnoddau Dynol) |
| | Nia Edwards-Behi | (Swyddog Amrywiaeth a Chynhwysiant) |
| | Morfudd Wynne | (Ar ran Cynorthwyydd Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| Hefyd yn bresennol: | Gareth Williams | TAC |
| | Luned Whelan | TAC |

Ymddiheuriadau

**MATERION SEFYDLOG:**

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod Bwrdd Unedol S4C. Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad.

1.1.1 Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelodau oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau eraill oni bai am ddatganiad RhW mewn perthynas ag Ofcom. Atgoffodd y Cadeirydd bawb am yr angen i ddiweddaru eu datganiadau buddiant.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn Adran y Bwrdd ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol*

2. **Adroddiad y Cadeirydd**

2.1 Ni chyflwynwyd adroddiad gan y Cadeirydd oherwydd cyfyngder amser.

S4C

| | |
|---|---|
| 3. | **Adroddiad y Prif Weithredwr** |
| 3.1 | Cyflwynodd OE ei adroddiad misol.<br><br>**[Crynodeb:** Eglurodd fod ganddo gyfarfod pellach gyda swyddogion y DCMS ar yr 20fed. |
| 3.1.1 | Nododd RhW bod yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyhoeddi wythnos nesaf sy'n golygu cyfweliadau gyda'r wasg felly mae cwestiynau ynglŷn â'r adroddiad a'r dyfodol yn siŵr o godi.] |
| 4. | **Cyflwyniad gan gynrychiolwyr TAC** |
| 4.1 | Diolchodd RhW am waith a chefnogaeth TAC yn ystod cyfnod anodd. |
| 4.1.1 | **[Crynodeb:** Rhoddodd Gareth Williams a Luned Whelan gyflwyniad am yr hyn mae TAC yn ei wneud. |
| 4.1.2 | Dywedwyd bod y berthynas mae AR a'r tîm wedi ei ddatblygu gyda darlledwyr a phlatfformau eraill wedi dwyn ffrwyth. Ychwanegodd LW bod cyfathrebu efo'r sector yn hanfodol i barhau efo'r bartneriaeth, gan nodi bod parodrwydd i newid trefniadau ond roedd angen i'r cwmnïau fod yn ymwybodol o'r cynlluniau o flaen llaw. O ran y Bwrdd dywedwyd bod perthynas agos ac agored efo TAC a'r sector yn bwysig iawn i S4C. |
| 4.1.3 | Gofynnwyd sut mae datblygu ac adeiladu ar y berthynas rhwng S4C a TAC? Atebodd LW fod y berthynas rhwng S4C a TAC yn un sydd wedi datblygu yn hytrach na ffrwyth gwrthdaro. Nododd ei bod hi'n cyfarfod ag EM bob tri mis. Mae'r berthynas yn gweithio orau pan mae'r sector, TAC a S4C ar yr un dudalen. Rhoddodd ganmoliaeth i staff S4C am y gwaith efo'r sector yn ystod y pandemig. |
| 4.1.4 | Dywedodd LW fod S4C ar y blaen o ran y cynnwys digidol gyda Hansh ac ati. Ychwanegodd bod cwmnïau yn dod at TAC sydd yn creu cynnwys digidol yn gyntaf sy'n dangos sut mae pethau'n newid ar hyn o bryd. |
| 4.1.5 | Dywedodd AR pa mor bwysig ydi cynllunio a chydweithio gyda'r sector. Trafodwyd sut mae cynnwys digidol yn cael ei gomisiynu. Mae S4C yn flaenllaw o ran cynnwys ffurf fer. |
| 4.1.6 | Dywedodd OE bod y gwaith mae TAC wedi ei wneud o ran hyfforddiant wedi bod yn wych. Diolchwyd i GW a LW yn benodol gan eu bod yn gadael TAC cyn bo hir. |
| 5. | **Adroddiad Safonau'r Gymraeg**<br><br>**[Crynodeb:** Cyflwynwyd Adroddiad Safonau'r Gymraeg S4C gan CHR. Yn dilyn un mân newid cymeradwywyd yr adroddiad gan y Bwrdd.] |
| 6. | **Codiad Cyflog 2021-22** |
| 6.1 | **[Crynodeb:** Eglurodd CW gefndir a rhesymeg y codiad cyflog a argymhellir i staff S4C eleni. Gofynnwyd os mai'r bwriad oedd rhoi'r codiad cyflog i staff ar unwaith ac atebodd CW mai'r 1af o Awst yw'r bwriad. |
| 6.1.1 | Holwyd beth oedd cynllun pensiwn S4C ac esboniodd CW fod S4C yn cyfrannu 10% o'r cyflog a'r staff yn cyfrannu o leiaf 5%. |
| 6.1.2 | Cymeradwywyd y codiad cyflog o'r 1af o Awst. |

7. **Cynllun Strategaeth 2022**

7.1 **[Crynodeb:** Cyflwynodd RhD y cynllun ar gyfer symud ymlaen gyda Strategaeth 2022. Nodwyd mai diben y cynllun yw amlinellu'r camau hyd at y flwyddyn ariannol nesaf.

7.1.1 Croesawyd y cynllun gan nodi bod ail lansio yn gyfle unigryw ac roedd yn bwysig bod S4C yn cynllunio o flaen llaw. Ychwanegwyd mai fframwaith yw'r cynllun gan fod bod yn hyblyg yn hanfodol bwysig yn y sefyllfa sydd ohoni.

7.1.2 Dywedodd Aelod arall ei fod yn croesawu'r adroddiad a'r weledigaeth, a'i fod yn bwysig ei rannu gyda'r staff yn fuan.

7.1.3 Gofynnwyd sut mae'r ymgysylltu gyda'r staff, y sector a'r gynulleidfa i ddigwydd. Ymhlith dulliau eraill dywedodd OE fod Facebook Live a grwpiau ffocws yn gweithio'n dda i ni, ac fe fydd ymgynghoriad swyddogol i ofyn am farn.

7.1.5 Roedd yr Aelodau yn falch o weld cynllun yn ei le ac ein bod yn gwybod i ba gyfeiriad mae S4C yn mynd.]

8. **Amserlen S4C**

8.1 **[Crynodeb:** Trafodwyd mater cyfrinachol ynghylch cynnwys ac amserlen S4C. Nid oedd yn fater oedd yn gofyn am benderfyniad ffurfiol.]

9. **Diweddariad ar Amrywiaeth a Chynhwysiant**

**[Crynodeb:** Croesawodd RhW NE-B i'r Bwrdd am y tro cyntaf.

9.1 Cyflwynodd NE-B ei hadroddiad oedd yn cynnwys crynodeb o'r gwaith sydd wedi digwydd yn y 6 mis cyntaf yn ei swydd. Y camau nesaf ydi gwerthuso'r ymrwymiad presennol, ac yna creu ymrwymiad newydd.

9.1.1 Dywedodd NE-B y byddai'n gwerthfawrogi unrhyw syniadau/gobeithion am beth ddylai fynd mewn i'r ymrwymiad nesaf, fydd gobeithio yn uchelgeisiol wrth symud ymlaen.

9.1.2 Diolchwyd NE-B am y papur gan ddweud ei fod yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol tu hwnt. Cyfeiriwyd at y gwaith personas gyda'r gynulleidfa ac, unwaith y bydd wedi gorffen, awgrymwyd bod S4C yn edrych mewn i sut mae'r Bwrdd a staff S4C yn ffitio mewn i'r personas hynny. Cytunodd NE-B fod hynny'n syniad da.

9.1.3 Cytunwyd bod angen pwysleisio pwysigrwydd yr ymchwil mewnol ac awgrymwyd bod S4C yn cynnal wythnos o achlysuron, gyda siaradwyr yn dod mewn i gynnal sesiynau. Dywedodd NE-B fod sesiynau Agored yn fisol ar hyn o bryd, ond cytunodd bod cael siaradwyr mewn yn effeithiol.

9.1.4 Holwyd os ydym mewn sefyllfa i gyflwyno targedau. Atebodd NE-B fod angen ystyried rhoi targedau ond yn nes at 2025, gan fod angen syniad cadarn o sut mae S4C yn edrych ar hyn o bryd, er mwyn gosod targedau rhesymol.

9.1.5 Dywedodd RhW bod y diddordeb mae'r Bwrdd wedi ei ddangos yn dystiolaeth o ymrwymiad y Bwrdd i'r agwedd holl bwysig yma o'r gwaith.

| | | |
|---|---|---|
| 10. | **Adroddiad Ariannol Chwarter 4, 2020-21** | |
| 10.1 | **[Crynodeb:** Cyflwynodd SW Adroddiad Ariannol Chwarter 4, 2020-21, gan nodi oblygiadau'r pandemig ar y sefyllfa ariannol**.** | |
| 10.1.1 | Y camau nesaf gyda'r DCMS fydd yr amcangyfrifon atodol sy'n digwydd tua mis Hydref fel arfer. Maent yn nodi unrhyw amrywiadau i'r swm a ddaw gan y DCMS.] | |
| 11. | **Marwolaethau Brenhinol** | |
| 11.1 | **[Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am y canllawiau ynghylch darlledu adeg marwolaeth frenhinol. Dysgwyd oddi wrth y profiad pan fu farw'r Dug Caeredin ac awgrymwyd newidiadau i'r dyfodol.] | |
| 12. | **Cofnodion cyfarfod Rhif 450 (17 Mehefin)**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Rhif 450 a gynhaliwyd 17 Mehefin.<br><br>Yn dilyn un cywiriad bach derbyniwyd y cofnodion.<br><br>**Cofnodion Bwrdd Masnachol (07 Gorffennaf)**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion o'r Bwrdd Masnachol. | |
| 13. | **Rhaglen Waith y Bwrdd**<br><br>Cyflwynwyd copi o Raglen Waith y Bwrdd ar gyfer 2021 er gwybodaeth. | |
| 14. | **Cofrestr Pwyntiau Gweithredu**<br>Ni thrafodwyd unrhyw faterion. | |
| 15. | **Unrhyw fater arall** | |
| 15.1 | **Pwyllgor Cyfathrebu** – gofynnodd i bawb gysylltu os oes ganddynt eitemau ar gyfer yr agenda. | |
| 15.1.1 | Dywedodd RhW fod angen paratoi Hyfforddiant i'r Bwrdd ar gyfer mis Hydref | |